

Caed trefn i faddau pechod

Caneuon Ffydd: Rhif 536

Caed trefn i faddau pechod
yn yr lawn;
mae iachawdwriaeth barod
yn yr lawn;
mae'r ddeddf o dan ei choron,
cyfiawnder yn dweud, "Digon,"
a'r Tad yn gweiddi, "Bodlon"
yn yr lawn;
a "Diolch byth," medd Seion,
am yr lawn.

Yn awr, hen deulu'r gollfarn,
llawenhawn;
mae'n cymorth ar Un cadarn,
llawenhawn:
mae galwad heddiw ato
a bythol fywyd ynddo;
ni chollir neb a gredo,
llawenhawn,
gan lwyr ymroddi iddo,
llawenhawn.

GWILYM CYFEILIOG, 1801-76

MYFYRDOD

Dyma'r unig emyn o waith William Williams, Llanbryn-mair, neu Gwilym Cyfeiliog, yn *Caneuon Ffydd* a, hyd y gwelaf fi, yr unig un a fu ganddo ym mhrif gasgliadau'r enwadau yn gyffredinol ers i Roger Edwards ei gynnwys yn ail argraffiad o'r *Salmydd Cymreig* ym 1849.

Emyn i'r lawn sydd yma yn ei hanfod. Gair syml yw *iawn* yn y Gymraeg, yn rhan o'n siarad bob dydd – 'Wyt ti'n iawn?', 'Da iawn', 'Popeth yn iawn'. Dyma'n defnydd hollol gyffredin ni o'r gair bach unsill, swynol hwn. Ond o'i ddefnyddio mewn ystyr cyfreithiol a diwinyddol, mae'r gair bach, nad ydyw'n golygu mwy nag 'OK' neu 'all right' yn Saesneg, yn codi i dir uwch o lawer ac yn derbyn llythyren fawr, 'Iawn', a bannod, 'Yr Iawn', er mwyn

diffinio yr un weithred unigryw a wnaed gan Iesu ar y groes yn ei roi ei hun yn aberth ac yn daliad drosom. Dyma'r gair bach yn Gymraeg sydd yn arwyddo bod popeth yn 'iawn', yn 'all right' rhyngom ni a Duw o'i herwydd. Mae'r berthynas wedi ei hadfer:

‘cyfiawnder yn dweud “Digon,”
a'r Tad yn gweiddi, “Bodlon”
yn yr Iawn’

Ein hymateb ni – Seion, Eglwys Crist, sef y rhai a brynwyd ac a adferwyd i berthynas â Duw, yw dweud “Diolch byth,” ... ‘am yr Iawn’.

Cyfieithwyd yr emyn i'r Saesneg gan Vernon Higham, Caerdydd, ond amhosibl wrth gwrs oedd iddo ddefnyddio'r gair Saesneg am Iawn, sef 'Atonement', oherwydd bod angen gair unsill arno, ac ychydig o emynau Saesneg sydd yn defnyddio'r gair am ei fod yn un mwy clogyrnaidd a thechnegol. Defnyddiodd yn hytrach 'In his blood', sydd yn cyfleu yr un syniad, ond heb fod yn cario'r un sylwedd ac arwyddocâd i ni â'r gair Iawn pan ddown ni ar ei draws fel Cymry mewn emynau Cymraeg fel un Gwilym Cyfeiliog yma ac emyn Pedr Fardd sy'n sôn am 'ollyngdod llawn drwy'r Iawn ar Galfari' (rhif 527) neu garol Eos Iâl, 'yr Iawn gaed ar Galfaria' (rhif 464), er enghraifft.

Cydoesai Gwilym Cyfeiliog ag Owen Thomas, Lerpwl (1812–91), ac ef yn ei gofiant rhagorol i John Jones, Talsarn (1874) sydd yn olrhain hanes y dadleuon diwinyddol am yr Iawn yng Nghymru yn nhrydedd ran ei 'bennod hirfaith' (yn ôl ei addefiad ei hun): *Dadleuon Duwinyddol Cymru. 1707–1841*. Ar ddiwedd ail ran ei bennod, fe'i ceir yn hiraethu braidd am gyfnod o ddadlau cyffelyb er mwyn cael hogi dipyn ar ein deall o natur gwirioneddau mawr yr Efengyl: 'Dichon ... nad bendith fechan i Gymru eto fyddai tymhor o ddadl ddifrifol, ac mewn ysbryd Cristnogaid, ar rai o wirioneddau mawrion yr efengyl!'

Clywch farn Robert ap Gwilym Ddu yn ei englyn yn ystod y cyfnod hwn hefyd ar natur yr Iawn:

Paham y gwneir cam â'r cymod – neu'r Iawn
A'i rinwedd dros bechod?
Dywedwch faint y Duwdod,
Yr un faint yw'r Iawn i fod.

GWEDDI

Diolch iti, Arglwydd, am air bach sydd yn llefaru cyfrolau wrthym yn ein hiaith ein hunain am yr hyn a gyflawnaist ti drosom ni ar y groes. Bydded i'n diolch fod yn para byth. Amen.